# Awdurdod Parc Cenedlaethol

## 20 Rhagfyr 2023

**<u>Yn Bresennol (yn bersonol)</u>**
Cynghorydd D Clements (Cadeirydd)
Cynghorydd S Alderman, Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, Mr GA Jones, Cynghorydd R Jordan, Cynghorydd R Owens, Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, Cynghorydd M Wiggins a'r Cynghorydd C Williams BEM.

**<u>Yn Bresennol (o bell)</u>**
Cynghorydd SL Hancock, Cynghorydd M James, Dr RM Plummer a'r Cynghorydd B Price.

**<u>Hefyd yn bresennol:</u>**
Owen Edwards (Rheolwr Gwasanaethau Ymwelwyr y Gogledd), Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Michael Kent (Swyddog Monitro), Caroline Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), Sara Morris (Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu), Andrew Muskett (Rheolwr Prosiectau Adeiladu) a Michel Regelous (Swyddog Cynllun Rheoli a Pholisi Morol).

[Parc Llanion, Doc Penfro ac o Bell 10.00am – 13:15pm]

**1. Ymddiheuriadau**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Mrs J James, y Cynghorydd P Morgan a'r Cynghorydd A Wilcox.

**2. Datgan Buddiannau**
Gwnaeth Dr R Plummer ddatganiad cyffredinol fel Aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ymddiriedolwr Plantlife, fodd bynnag arhosodd yn y cyfarfod a chwarae rhan lawn yn y trafodaethau.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2023 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

Ar gynnig Dr R Heath-Davies, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Alderman, **PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2023.

**4. Log Gweithredu a Materion yn Codi**
<u>a) Adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (rhif 888)</u>
Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Archwilio fis Chwefror i

ganiatáu i'r Aelodau rannu eu barn ar yr adolygiad o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

<u>b) Hyfforddiant ar Seiberddiogelwch (rhif 926)</u>
Cadarnhawyd na fyddai disgwyl i'r Aelodau oedd wedi cwblhau Hyfforddiant Seiberddiogelwch Cyngor Sir Penfro gwblhau Hyfforddiant Seiberddiogelwch yr Awdurdod yn ogystal. Gofynnwyd i'r Aelodau oedd wedi cwblhau hyfforddiant Cyngor Sir Penfro anfon caniatâd ysgrifenedig at y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd fel y gall gael golwg ar eu tystysgrifau hyfforddiant at ddibenion cadw cofnod. Gofynnwyd a oedd yr un peth yn wir am yr Aelodau oedd wedi cwblhau yr Hyfforddiant Seiberddiogelwch a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru, a chytunodd y Swyddog i ymchwilio ac adrodd yn ôl mewn cyfarfod yn y dyfodol. Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd, cadarnhaodd y Swyddog bod yr adran Adnoddau Dynol yn rhoi gwybod iddi pan oedd yr Aelodau wedi cwblhau'r hyfforddiant.

**Nodwyd.**

**5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i gydymdeimlo ar ran yr holl Aelodau â'r Cynghorydd M Wiggins a'r Cynghorydd SL Hancock am brofedigaeth a ddaeth i'w rhan yn ddiweddar.

Aeth y Cadeirydd ymlaen i ddweud ei bod wedi mynychu'r digwyddiadau canlynol:

- Cyfarfod gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James, i drafod, ymhlith pethau eraill, y setliad cyllido a ddisgwylir i'r Parc Cenedlaethol a'r ardoll ymwelwyr. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod y setliad drafft wedi dod i law ers hynny ac nad oedd y ffigur wedi newid ers y llynedd.
- Cinio Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Sir Benfro lle cafwyd araith gan y Cynghorydd John Davies ar bwysigrwydd bwyd lleol ac olyniaeth.
- Gwobrau Sbotolau, lle cyflwynodd y Wobr Hyrwyddwr Eco. Roedd y digwyddiad yn dathlu llwyddiannau eithriadol pobl ifanc y Sir.
- Cyfarfod o'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig lle cadarnhawyd na fyddai disgwyl i'r Awdurdod roi cyfraniad ariannol yn y flwyddyn ariannol nesaf. Roedd yr agenda yn cynnwys adroddiad Archwilio Cymru ar flaenoriaethau'r Cyd-bwyllgorau ar gyfer cynllun corfforaethol 2024/25 a Safonau'r Gymraeg.

Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau bod Castell Henllys wedi ennill Gwobr Sandford yn ddiweddar am y pumed tro ac yn cael ei gydnabod fel un o

ddim ond pump safle yng Nghymru i gael yr achrediad hwn am ei raglen addysg. Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i'r Rheolwr Gwasanaethau Ymwelwyr yng Nghastell Henllys, oedd wedi'i wahodd i'r cyfarfod i roi rhagor o wybodaeth i'r Aelodau am y wobr. Eglurwyd bod y cynllun Gwobr Sandford wedi'i sefydlu yn 1975 i annog y rhai sy'n gyfrifol am redeg tai hanesyddol ddeall pa mor bwysig yw eu rôl addysgol, a rhoi cymorth a monitro safonau. Ychwanegwyd bod y wobr yn asesiad annibynnol â sicrwydd ansawdd o raglenni addysg mewn safleoedd treftadaeth, amgueddfeydd, archifau a chasgliadau ar draws gwledydd Prydain. Aeth y Swyddog rhagddo i sôn am ymroddiad ei dîm a'i falchder o weithio ar safle oedd yn cynnig profiadau bythgofiadwy i ymwelwyr. Canmolodd yr Aelodau y tîm yng Nghastell Henllys am eu gwaith caled.

Nesaf, soniodd y Cadeirydd am Gynhadledd Europarc a gynhaliwyd fis Hydref 2023 yn yr Iseldiroedd, a fynychwyd gan ddau o Aelodau'r Awdurdod. Gwahoddwyd yr Aelodau, Mr GA Jones a Mrs S Hoss i roi cyflwyniad byr o'u profiadau. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys amrywiaeth o ddelweddau o'r gynhadledd ac yn arddangos yr ymweliadau safle a fynychwyd ganddynt a rhinweddau arbennig lleoliad y gynhadledd, Leeuwarden. Dywedwyd bod y gynhadledd yn nodi hanner can mlynedd ers sefydlu'r ffederasiwn, a thema'r gynhadledd oedd "Teyrnged i'n tirwedd, lle mae natur a phobl yn cyfarfod mewn cytgord". Roedd Mr GA Jones a Mrs S Hoss yn gytûn bod y gynhadledd wedi bod yn gyfle gwych i wahanol Barciau ar draws y byd ddod at ei gilydd, rhannu arfer gorau a syniadau ac i drafod materion amgylcheddol megis effaith yr argyfwng hinsawdd. Dywedodd y ddau Aelod eu bod wedi cael profiad cadarnhaol o fod yn y gynhadledd, ac awgrymwyd y dylid ystyried bod staff yn mynychu yn y dyfodol gan y bernid y byddent yn elwa o'r profiad.

**Nodwyd.**

**6. Adroddiadau o gyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau er ystyriaeth/ gwybodaeth:

(i) Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 25/10/2023;
(ii) Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 27/09/2023;
(iii) Pwyllgor Ieuenctid a gynhaliwyd ar 07/11/2023.

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu/ derbyn cofnodion y Pwyllgorau uchod.

**7. Adolygu Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol**

Croesawodd y Cadeirydd y Swyddog Cynllun Rheoli a Pholisi Morol, a gyflwynodd adroddiad oedd yn gofyn am fewnbwn yr Aelodau i raglen amlinellol o adolygu Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a'i chymeradwyo.

Dywedwyd y byddai'r adolygiad yn cynnwys ymgynghoriad ffurfiol cyn mabwysiadu'r cynllun terfynol.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu gwybodaeth gefndir i'r Cynllun Rheoli ac amlinelliad o'r canllawiau ar gyfer paratoi’r cynllun, crynodeb o'r cynllun presennol, dadansoddiad o raglen adolygu arfaethedig, gwybodaeth yn ymwneud ag Asesiadau Effaith, manylion caffael a rheoli data, ac amserlen ar gyfer y camau nesaf.

Cytunodd yr Aelodau ei bod yn hollbwysig bod yr Awdurdod yn cadw at yr amserlen a bennwyd tra'n sicrhau bod y rhanddeiliaid yn parhau i fod yn rhan o'r broses gan mai cynllun ar gyfer y Parc oedd hwn, yn hytrach na dim ond ar gyfer yr Awdurdod.

Dywedodd Aelod bod gwall teipio yn yr adroddiad ar dudalen 27 o dan pwynt 10 lle dylai fod wedi darllen 2024 yn hytrach na 2025, a nodwyd hyn gan y Swyddog.

Gofynnodd Aelod a oedd pob un o Gynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol Cymru wedi'u cysoni yn eu cyhoeddiad, ac mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog nad oeddent ar hyn o bryd ond yn cydnabod y byddai'n fuddiol pe baent yn y dyfodol.

Nodwyd, fel rhan o gamau cyntaf yr ymgysylltu, y byddai ymarferiad yn cael ei gynnal gyda'r cyhoedd ar y pwnc o rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol i helpu i lywio'r adolygiad. Dywedodd Aelod y dylai Tir, Morol a Phobl gael eu cynrychioli'n dda drwy'r ddogfen hon er mwyn helpu i sefydlu ymdeimlad o le.

Nodwyd y byddai’r adolygiad o'r Cynllun Rheoli yn cael ei gynnal yn unol â Mesur y Gymraeg 2011 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Roedd yr adroddiad yn nodi y byddai'r Awdurdod yn gwneud 'ymdrech gydwybodol' i ystyried effeithiau penodol posibl y polisi ar y Gymraeg, drwy Asesiad o’r Gymraeg. Mewn ymateb i ymholiad a godwyd, cadarnhawyd, yng nghyd-destun Safonau’r Gymraeg, bod y term ‘ymdrech gydwybodol’ wedi’i gydnabod yn ddiweddar fel diffiniad cyfreithiol y gellid mesur yr Awdurdod yn ei erbyn, ac felly bod mwy o waith yn cael ei wneud i archwilio hyn.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r amserlen ar gyfer pob cam o’r broses a nodwyd y byddai'r ymgynghoriad cyhoeddus yn digwydd dros 12 wythnos, o ganol Mehefin i ganol Medi. Gofynnodd Aelod a fyddai angen cyfnod o 12 wythnos ar gyfer yr ymgynghoriad o gofio bod y tîm eisoes wedi gwneud gwaith helaeth gydol y flwyddyn. Mewn ymateb, cytunodd y Swyddog efallai na fyddai angen cynnal ymgynghoriad dros 12 wythnos, a chadarnhaodd y byddai'n ymchwilio i hyn.

Dywedwyd bod y canllawiau cyfredol ar baratoi Cynllun Rheoli wedi'u cyhoeddi yn wreiddiol yn 2007 ond bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn y broses o gomisiynu adolygiad ehangach o'r canllawiau. Mynegodd Aelod bryder ynghylch hyn a gofynnodd a allai'r adolygiad gael effaith negyddol ar adeg pan oedd Cynllun Rheoli'r Awdurdod allan ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Mewn ymateb, rhoddodd y Swyddog a'r Prif Weithredwr sicrwydd er y gallai'r canllawiau gael eu hadolygu, y byddai'r gofynion cyffredinol yn aros yr un fath, a bernid y byddai unrhyw newidiadau yn gadarnhaol i'r Awdurdod.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan Dr R Plummer, **PENDERFYNWYD** cytuno ar y dull arfaethedig o weithredu, y cerrig milltir a’r amserlen ar gyfer paratoi Cynllun Rheoli’r Parc Cenedlaethol 2025-2029.

**8. Adolygiad a Strategaeth y Gymraeg**

Croesawodd y Cadeirydd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a gyflwynodd adroddiad oedd yn anelu at fabwysiadu'r Strategaeth Iaith Gymraeg ddrafft 2023-2028 fel strategaeth yr Awdurdod ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y Parc Cenedlaethol.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu gwybodaeth gefndir y strategaeth, manylion Cyfrifiad 2021 a manylion am y Gweithgor Strategaeth y Gymraeg. Hefyd roedd yr adroddiad yn cynnwys Crynodeb o’r Asesiad Integredig cysylltiedig ar gyfer y strategaeth, y strategaeth ar gyfer 2023-2028 ac adolygiad o’r strategaeth flaenorol ar gyfer 2017-2022. Dywedodd yr Aelodau bod y strategaeth yn gam cadarnhaol ymlaen yn ymdrech yr Awdurdod i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a nifer y siaradwyr Cymraeg.

Dywedwyd bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr Awdurdod wedi gostwng ers yr adolygiad diwethaf, a chafwyd trafodaeth ynglŷn â'r her o recriwtio siaradwyr Cymraeg. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod cynnydd wedi bod yn nifer y staff oedd yn dysgu Cymraeg oedd wedi cael cymorth yr Awdurdod ac wedi symud ymlaen wedyn i lefel lle gallent weithio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cytunwyd y byddai monitro effeithiol yn hanfodol i asesu effeithiau'r strategaeth newydd, ac felly gofynnwyd am gynnwys cynllun gweithredu. Cytunodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd i greu cynllun gweithredu, a byddai'n adrodd yn ôl i’r Gweithgor Strategaeth y Gymraeg i'w gymeradwyo.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan Mr GA Jones, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu Strategaeth y Gymraeg 2023-2028,

gyda chytundeb ar gynllun gweithredu a ddirprwyir i'r Gweithgor Strategaeth y Gymraeg.

**9. Adroddiad y Pwyllgor Safonau**

Croesawodd y Cadeirydd y Swyddog Monitro, Michael Kent, a gyflwynodd yr adroddiad blynyddol 2022/23 oedd yn amlinellu sut oedd swyddogaethau'r Pwyllgor Safonau wedi cael eu cyflawni, a rhoddodd drosolwg o faterion ymddygiad yn gyffredinol o fewn yr Awdurdod.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau, Aelodaeth y Pwyllgor Safonau, crynodeb o'r hyfforddiant, crynodeb o'r cwynion, tueddiadau, manylion goddefebau ac adroddiad blynyddol yr Ombwdsmon.

Ar gynnig y Cynghorydd S Hancock, a eiliwyd gan Dr RM Plummer, **PENDERFYNWYD** nodi adroddiad y Swyddog Monitro.

*[Gohiriwyd y cyfarfod o 11:45am i 11:55am.]*

*[Gadawodd y Cynghorydd C Williams y cyfarfod cyn ystyried Adroddiad 45/23, Grŵp Arallgyfeirio Incwm.]*

**10. Grŵp Arallgyfeirio Incwm**

Croesawodd y Cadeirydd y Prif Weithredwr a gyflwynodd adroddiad oedd yn gofyn am gytundeb yr Aelodau i sefydlu grŵp i arwain a chefnogi gwaith yr Awdurdod o ran Arallgyfeirio Incwm. Roedd yr adroddiad yn egluro bod yr Awdurdod wedi canolbwyntio ar arallgyfeirio ei incwm dros y degawd diwethaf ac wedi llwyddo i ddelio â gostyngiad sylweddol mewn termau real mewn cyllid cyhoeddus.  Fodd bynnag roedd maint yr her a wynebir yn awr yn golygu bod gofyn gwneud gwaith ychwanegol yn y maes hwn i osgoi gwneud toriadau sylweddol yn y gyllideb. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod gweithdy wedi'i gynnal yn ddiweddar gyda'r Aelodau a'r Rheolwyr lle awgrymwyd sefydlu grŵp o'r natur hwn oedd yn cynnwys Aelodau, staff ac arbenigwyr allanol i gynorthwyo'r Awdurdod.

Gofynnodd Aelod a fyddai'r Grŵp yn Grŵp Tasg a Gorffen neu'n Grŵp parhaol. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r opsiynau hyn yn ogystal â rôl y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol o ran trosolwg ac atebolrwydd.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan Dr M Havard, **PENDERFYNWYD**;

1) cymeradwyo sefydlu Grŵp Arallgyfeirio Incwm,
2) dirprwyo'r Cylch Gorchwyl i'r Prif Weithredwr drwy ymgynghori â Chadeiryddion yr Awdurdod a'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu

Gwasanaethau Corfforaethol a'i gyflwyno i'r Grŵp yn ei gyfarfod cyntaf.

3) penodi Dr RM Plummer, y Cynghorydd D Clements, Mrs S Hoss a'r Cynghorydd R Owens yn Aelodau o'r grŵp, a bod y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn anfon gwahoddiad pellach at yr Aelodau yn eu gwahodd i ddatgan diddordeb am y ddwy swydd wag sy'n weddill.

**11. Unrhyw fater arall**

Manteisiodd y Prif Weithredwr ar y cyfle i hysbysu'r Aelodau am lythyr rhybuddio yr oedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i anfon at yr Awdurdod yn ystod Gwanwyn 2023. Eglurwyd bod y llythyr wedi'i anfon yn uniongyrchol at yr adran berthnasol i ddechrau, ond nid oedd wedi'i ddwyn i sylw'r Prif Weithredwr tan yn ddiweddar. Dywedwyd bod y llythyr yn ymwneud â gwaith a wnaed yn y Parc gan gontractwyr a bod y gwaith hwnnw wedi arwain, yn ôl y sôn, at ryddhau dŵr brown allai fod yn llygredig. Ar ôl ymchwilio ymhellach i'r mater, roedd yr Awdurdod o'r farn bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd ar y pryd. Fodd bynnag oherwydd yr oedi cyn hysbysu'r Uwch Reolwyr, ni chafodd yr Awdurdod gyfle i apelio.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn fodlon ar ganlyniad yr ymchwiliad a'i bod o'r farn bod yr Awdurdod wedi mynd ati yn ddiymdroi gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatrys y mater.

**Nodwyd.**

**12. Eithrio'r cyhoedd**

Nodwyd, wrth drafod yr adroddiad canlynol, y gellid rhannu gwybodaeth oedd yn fasnachol sensitif, ac felly gofynnwyd am eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan Dr M Havard, **PENDERFYNWYD** eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.

**13. Ailddatblygu'r Ystafell Werdd**

Croesawodd y Cadeirydd y Rheolwr Prosiectau Adeiladu, Andrew Muskett, a gyflwynodd adroddiad oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar y camau ymlaen a gymerwyd ar y prosiect ers i'r Awdurdod gytuno i ailddatblygu'r ystafell gyfarfod fis Medi 2021. Aeth yr adroddiad rhagddo i gyflwyno gwerthusiad o'r tendrau a'r costau a dderbyniwyd ar ôl cwblhau'r cam caffael, ac awgrymwyd pedwar opsiwn ar gyfer symud ymlaen.

Cafwyd trafodaeth ar yr opsiynau hyn, a chytunwyd gan yr Aelodau y byddai angen mwy o wybodaeth ar opsiynau 2, 3 a 4 cyn y gallant ddod i benderfyniad.

Ar gynnig y Cynghorydd R Jordan, a eiliwyd gan y Cynghorydd D Clements, **PENDERFYNWYD** y byddai’r Rheolwr Prosiectau Adeiladu yn coladu rhagor o wybodaeth yn seiliedig ar sylwadau a cheisiadau’r Aelodau ac yn cyflwyno hyn i’r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn ei gyfarfod fis Mawrth 2024.

**Nodwyd.**

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o’r Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 07 Chwefror 2024 heb eu diwygio. |